# Pleidleisiau a Thrafodion - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 28 Medi 2022

Amser y cyfarfod: 13.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/12977

## 91

Cynhaliwyd y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

## 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd y 10 cwestiwn cyntaf. Gwahoddodd y Llywydd Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

**Yn unol â Rheol Sefydlog 12.18, rhwng 14.19 and 14.32 cafodd y trafodion eu hatal dros dro i ganiatáu egwyl technegol.**

## 2 Cwestiynau i'r Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd

Dechreuodd yr eitem am 14.32

Gofynnwyd cwestiynau 1 a 3 -10. Tynnwyd cwestiwn 2 yn ôl. Gwahoddodd y Llywydd Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 3.

### Diweddariad Datganiad Busnes

Am 15.16, rhoddodd y Trefnydd diweddariad ar y Datganiad Busnes

## 3 Cwestiynau Amserol

Ni dderbyniwyd unrhyw Gwestiynau Amserol

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 4 Datganiadau 90 Eiliad

Dechreuodd yr eitem am 15.17

Gwnaeth Samuel Kurtz ddatganiad am - Diwrnod Llaeth Ysgol y Byd.

Gwnaeth Peter Fox ddatganiad am - Teyrnged i'r Cyng. Bob Greenland, cyn-Ddirprwy Arweinydd Cyngor Sir Fynwy.

## 5 Cynnig i gymeradwyo'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol ar gyfer y Chweched Senedd a nodi'r adroddiad blynyddol ar y Cynllun Ieithoedd Swyddogol ar gyfer 2021-22

Dechreuodd yr eitem am 15.20

**NDM8078** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn cymeradwyo Cynllun Ieithoedd Swyddogol Comisiwn y Senedd, yn unol â pharagraff 8(11)(d) o Atodlen 2 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a osodwyd gerbron Senedd Cymru ar 21 Medi 2022; a

2. Yn nodi'r Adroddiad Blynyddol ar Gynllun Ieithoedd Swyddogol Comisiwn y Senedd ar gyfer y cyfnod 2021-22, yn unol â pharagraff 8(8) o Atodlen 2 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a osodwyd gerbron y Senedd ar 30 Mehefin 2022.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 6 Dadl ar ddeiseb P-06-1276 - Ymestyn adran 25B o Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016

Dechreuodd yr eitem am 15.39

**NDM8077** Jack Sargeant (Alun a Glannau Dyfrdwy)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi'r ddeiseb, 'P-06-1276 Ymestyn adran 25B o Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016', a gasglodd 10,572 o lofnodion.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 7 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig – Canser gynaecolegol

Dechreuodd yr eitem am 16.07

**NDM8082** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi bod mis Medi yn fis ymwybyddiaeth canser gynaecolegol.

2. Yn mynegi ei phryder mai'r perfformiad llwybr canser unigol isaf yn ôl safle tiwmor yw'r un gynaecolegol, gyda llai na thraean o gleifion yn cael eu gweld o fewn 62 diwrnod.

3. Yn gresynu at y ffaith bod cyfraddau goroesi blwyddyn a phum mlynedd ar gyfer canser y groth wedi gostwng yn sylweddol dros y degawd diwethaf.

4. Yn nodi ymhellach ymchwil a wnaed gan Jo's Cervical Cancer Trust sy'n amlygu na all 80 y cant o fenywod sy'n gweithio'n llawn amser gael apwyntiad sgrinio serfigol cyfleus.

5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) gynnal adolygiad brys i amseroedd aros canser gynaecolegol;

b) sicrhau bod cynlluniau'r gweithlu ar gyfer arbenigwyr canser yn canolbwyntio ar iechyd gynaecolegol; ac

c) cyflwyno ei chynllun gweithredu canser ar unwaith.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 8 Cyfnod Pleidleisio

Nid oedd cyfnod pleidleisio.

## 9 Dadl Fer

Dechreuodd yr eitem am 16.57

**NDM8076** Joel James (Canol De Cymru)

Dŵr yng Nghymru: yr heriau sy'n ymwneud â thlodi dŵr a'i safon

## 10 Dadl Fer

Dechreuodd yr eitem am 17.15

**NDM8080** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Mapio moroedd Cymru: buddsoddiad yn ein dyfodol gwyrdd a glas

Daeth y cyfarfod i ben am 17.33

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mawrth, 4 Hydref 2022**